Disgo'r Urdd

Ar brynhawn Mercher, Mai 20 cynhaliwyd disgo yn Neuadd ysgol Pen-glais. Cafodd y plant gyfle i ddawnsio a chwarae gêmau ac roedd gwobrau raffl ar gyfer yr enillwyr lwcus. Gorffenwyd y cyfan gyda phop a creision. Llawer o ddiolch i Rhian Dafydd am drefnu'r disgo.

Râs peli

Nos Wener, Mai 1af, cynhaliwyd gweithgaredd dra gwahanol i godi arian i'r ysgol. Roedd cynnwrf mawr wrth i gannoedd o beli bach coch rowlio lawr y rhiw tuag at y Clwb pêl-droed. Bu'r rasus yn llwyddiant mawr a diolch i aelodau'r Gymdeithas Rhieni Athrawon am drefnu'r noson. Diolch hefyd i Fanc Barclays am noddi'r noson dan eu cynllun £ am £

Cymdeithas Merlod Cymru

Braf oedd croesawu Emma o Gymdeithas Merlod Cymru i'r ysgol yn ddiweddar. Cafodd y plant gyfle i wylio fidio yn olrhain hanes y merlod ac fe aeth pob ddosbarth i ymweld â'r ganolfan. Roedd Emma wedi dod a sticeri a chardiau post i bawb. Diolch yn fawr iddi.

Traws gwlad

Llongyfarchiadau i'r plant fu'n rhedeg yng Nghaerfyrddin yn ddiweddar dyma'r canlyniadau - Ashley 22, Josh 8, Holly 5 a Martin a Sara 3. Ardderchog wir, daliwch ati blant!